



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

1: Datblygu sgiliau, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel cenedl ddwyieithog


2: Cynorthwyo pobl i ymgysylltu â diwylliant yn eu gwaith bob dydd, gan ddangos ein pobl broffesiynol ddiwylliannol ar eu gorau

3: Defnyddio ymyriadau diwylliannol a ieithyddol i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach

4: Defnyddio diwylliant a'r Gymraeg i sbarduno newid economaidd ac amgylcheddol

5: Galluogi ein dinasyddion i gyrchu ac ymgysylltu â'u diwylliant hwy eu hunain a diwylliannau eraill





Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinir y nod hwn fel

*“cymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod
diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg
ac sy'n annog pobl i gyfranogi
yn y celfyddydau a chwaraeon a
gweithgareddau hamdden.”*



Diffinio'r nod

Mewn datganiad enwog dywedodd Mahatma Gandhi bod “diwylliant cenedl yn bodoli yng nghalonnau ac eneidiau ei phobl.”

Mae'r celfyddydau a diwylliant yn bwysig i'n holl fywydau. O fod yn aelod o'ch clwb chwaraeon lleol, i ymweld â'r theatr yn ystod y penwythnos, neu ganu mewn côr, mae'r celfyddydau a diwylliant yn gwneud ein bywyd yn werth ei fyw. Yng Nghymru, mae cysylltiad cryf rhwng diwylliant â'n treftadaeth a'r iaith Gymraeg; dyna sydd yn ein gwneud yn unigryw.


Yn ystod adegau o galedi, fodd bynnag, gellir camdehongli'r celfyddydau a diwylliant fel rhywbeth 'braf i'w gael' neu hyd yn oed fel moethusrwydd – pan fydd tystiolaeth yn dangos bod gwerthfawrogi'r celfyddydau a chreadigrwydd yn fanteisiol i'n llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y bydd creadigrwydd ar ben y rhestr fel y sgil fwyaf dymunol ar gyfer y dyfodol. Mae angen mwy o gymorth traws sector i hybu cyfranogiad mewn, ac ymgysylltiad â diwylliant, yn cynnwys y celfyddydau, chwaraeon

a gweithgareddau oriau hamdden, yn ogystal â'r Gymraeg. Mae mynediad cyfartal i'r celfyddydau felly'n hollbwysig ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Drwy hybu a gwarchod ein diwylliant a'n treftadaeth, rydyn ni'n dod i werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer newid cymdeithasol a'u potensial ar gyfer cyflawni ffyniant a chydnerthedd. Defnyddir diwylliant yn y ddogfen hon fel term sy'n cwmpasu archifau, celfyddydau, iaith, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, chwarae a chwaraeon.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Hybu a gwarchod y Gymraeg.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 1: Cynorthwyo'r Gymraeg\).](#)

Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer y dyfodol.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 3: Diwylliant fel mecanwaith ar gyfer newid\).](#)

Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu potensial i gyflawni ffyniant a chydnerthedd.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 4: Diwylliant yn galluogi ffyniant a chydnerthedd\).](#)

Annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden, a gwerthfawrogi creadigrwydd.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 2: Gwerthfawrogi Creadigrwydd\).](#)

Annog sefydliadau i sicrhau bod y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden ar gael i bawb.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 5: Diwylliant ar gael i bawb\).](#)

Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

Mae'n ofynnol i **gyrff cyhoeddus** lynu wrth y ddeddfwriaeth sy'n eu cwmpasu ac unrhyw gytundeb a wnaethpwyd rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru neu eu Corff a Noddir.

Pasiwyd **Mesur y Gymraeg** gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, gan sefydlu Safonau'r Gymraeg. Gellir cael mwy o wybodaeth ar [wefan Comisiynydd y Gymraeg](#).

Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau a awgrymir yn y ddogfen hon yn unol â Safonau'r Gymraeg, felly dylai gyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn eu cyflawni eisoes - caiff y camau a'r gweithrediadau hyn eu hamlygu mewn oren gyda'r symbol 'St'. Mae rhai o'r camau, tra'n ymddangos fel rhai sy'n cyd-fynd ag ethos y safonau, yn gofyn i gyrff cyhoeddus fynd gam ymhellach gan wneud mentrau iaith a chyfleoedd yn rhan annatod o'u sefydliad.



Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd strategaeth genedlaethol a lleol yn bodoli.
- Pan fydd sefydliadau'n deall sut i fanteisio i'r eithaf ar asedau fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, sefydliadau celf ac adeiladau hanesyddol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o botensial creadigrwydd (yn arbennig ymhlith pobl broffesiynol ddiwylliannol) i gynorthwyo newid mewn llunio polisi a'r gymdeithas ehangach.
- Pan fydd datblygiad busnes mewn trefi a dinasoedd yn cael ei adeiladu o gwmpas eu cynnig diwylliannol.
- Pan fydd partneriaethau arloesol ar gael sy'n caniatáu i ddiwylliant fod yn fwy gweladwy mewn bywyd bob dydd, er enghraifft cysylltu'r agendau diwylliannol ac iechyd.
- Pan fydd prosiectau o'r gorffennol yn dangos effaith hirdymor buddsoddi mewn diwylliant ac iaith.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- Pan na fydd dealltwriaeth neu werthfawrogiad o gyfraniad diwylliant a'r Gymraeg i ganlyniadau ehangach a'r agenda atal.
- Pan fydd cymorth yn un tymor byr neu ariannu ar gyfer prosiectau yn cael ei gyfyngu gan amser, neu pan fydd prosiectau peilot yn lleihau'r cyfle ar gyfer effaith parhaol.
- Pan fydd tystiolaeth neu arwyddion yn gyfyng ar gyfer 'profi' gwerth ac effaith.
- Pan fydd gweithgareddau diwylliannol a ieithyddol yn digwydd mewn seilos.
- Pan na fydd darlun llawn o asedau diwylliannol lleol yn bodoli (yn cynnwys adeiladau, mannau agored a phobl) a phan na fydd cysylltiad rhyngddynt â darpariaeth amcanion ehangach.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu

1: Cynorthwyo'r Gymraeg

Datblygu sgiliau, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein
statws fel cenedl ddwyieithog

Diffinio'r mater

Yn ôl ystadegau'r cyfrifiad, ar y cyfan mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011, er gwaethaf y cynnydd ym maint y boblogaeth, gan ddangos mai dim ond 19% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Ers 1981, bu cynnydd yng nghyfartaledd plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg drwy'r system addysg yng Nghymru. Mae hyn lawer yn is na tharged Llywodraeth Cymru o [1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050](#).

Mae ymchwil diweddar o Ganada'n dangos gwerth dwyieithrwydd nid yn unig i'r economi ond i unigolion drwy fanteision gwybyddol a chymdeithasol. Mae angen i ni ddarganfod dulliau o wneud y Gymraeg yn rhan gynhenid o bwy ydyn ni a rhoi i bobl bob cyfle (ble maent yn dymuno ei gael) i ddysgu, cynnal a datblygu eu sgiliau iaith personol. Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i lawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i hyrwyddo'r iaith drwy ofyn iddynt greu strategaeth bum mlynedd i gynyddu neu gynnal nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg yn eu hardal - mae dolen gynhenid rhwng hyn â'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n elfen bwysig yn y modd yr ydym yn cynorthwyo, yn canfod ac yn datblygu'r iaith yn lleol ledled Cymru. Mae gan y Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y cyfogydd mwyaf yng Nghymru, gyfraniad enfawr i'w wneud tuag at yr agenda hon ac i'w gwneud yn bosibl i Lywodraeth Crymu gyflawni eu targed uchelgeisiol a fydd yn y pen draw'n cryfhau hunaniaeth Cymru a'i natur unigryw.

Mae'r daith hon wedi cael sylw yn y bartneriaeth rhyngom â Chomisiynydd y Gymraeg. Gellir gweld y cymorth ar gyfer gweithredu safonau'r Gymraeg drwy droi at [Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg](#).

Gwneud Newidiadau Syml

St

Polisi

Sicrhewch fod pob mynediad yn cynnwys cyfarchion ddwyieithog.

e.e. Mae **Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n** cydnabod bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol – Cymraeg a Saesneg. Felly mae eu harwyddion, laniardau, ebyst, dulliau cyfathrebu, datganiadau i'r wasg, darparu gwasanaethau i gyd yn gwbl ddwyieithog.
<https://youtu.be/PxyTFAd4nok>

ee

Sicrhewch fod Cysill/Cysgeir (adnodd gramadeg Cymraeg / gwirio sillafu) ar gael i bob aelod o'r staff.

Defnyddiwch iaith Gwaith ar laniardau a llofnodion e-bost staff sy'n siarad Cymraeg.

CARTREF



Defnyddiwch gyfeithwyr

cymwys sy'n aelodau o [Gymdeithas Cyfeithwyr Cymru](#) i ddatblygu gwybodaeth ddwyieithog.

St

Aseswch yr angen am y Gymraeg fel rhan o ddatblygu Disgrifiadau Swydd.

St

Sicrhewch fod gennych gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n ddwyieithog.

St

Sgiliau

Rhowch fynediad i staff, yn ystod oriau gwaith, i adnoddau ar-lein di-dâl i gynorthwyo dysgu/deall y Gymraeg.

Rhowch ½ awr i staff yn ystod eu hwythnos waith i ddysgu/ datblygu eu sgiliau iaith.

Bod Yn Fwy Anturus

Polisi

Gwnewch y Gymraeg yn rhan greiddiol o Gynllun Corfforaethol y sefydliad gydag uchelgais glir a gweithrediadau wedi eu sefydlu ar gyfer ei datblygu.

Pob **e-bost i staff** i gael eu hanfon yn ddwyieithog.

Sicrhewch fod grwpiau sy'n derbyn arian cyhoeddus drwy gynlluniau grant neu fentrau strategol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w gweithgareddau a ariennir yn ddwyieithog.

Chwaraewch gerddoriaeth Gymreig a Chymraeg mewn manau cyhoeddus.

St

Ystyriwch y Gymraeg

wrth gynllunio prosiect, gweithgaredd neu adeilad newydd.

Cefnogwch gyfleoedd i staff ddrafftio gwybodaeth yn Gymraeg yn hytrach na chyfieithu o ddogfennau Saesneg neu ddefnyddio Google Translate (neu gyfrwng tebyg).

Ystyrwch sut i ddefnyddio cyrsiau Cymraeg a chysiau ymwybyddiaeth o ddiwylliant yn eich swyddfeydd a gyda'r sefydliadau yr ydych yn gweithio gyda nhw, i alluogi staff a phobl yr ydych yn gweithio gyda nhw i ddeall y cysylltiad rhwng iaith a diwylliant.

ee

Anogwch bobl i ddefnyddio hygyrchedd eich gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddylunio a gweithredu cynlluniau marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus.

Rhowch bwyslais ar ystyriaethau'r Gymraeg mewn ceisiadau cynllunio i ddatblygu cynnydd net i'r iaith mewn datblygiadau newydd, gan ddylanwadu ar fusnesau lleol a bod o fantais i'r gymuned leol.

e.e. [achos cynllunio Pets at Home Sir Gaerfyrddin](#).

Bod Yn Fwy Anturus

Pa le bynnag mae hynny'n berthnasol i'ch sefydliad, sicrhewch fod profion meddygol, (e.e. seiciatryddol, clyw a.y.y.b.) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai â'r Gymraeg yn famiaith iddynt, yn arbennig plant ac oedolion hŷn.

St

Sicrhewch fod gennych systemau mewnol cwbl ddwyieithog e.e. polisïau, contractau.

St

Sicrhewch fod eich staff yn cael eu cynorthwyo ac yn medru cyfathrebu'n fewnol yn yr iaith o'u dewis yn ffurfiol ac anffurfiol.

CARTREF

Partneriaethau

Datblygwch berthynas â'r Fenter Iaith Lleol.

Datblygwch gysylltiadau â sefydliadau lleol a chenedlaethol (e.e. Menter Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol, Mudiad Ysgolion Meithrin a.y.y.b.) i ddatblygu cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau lleol Cymraeg eu hiaith.

Cymerwch ran weithgar yn eich fforwm iaith Gymraeg strategol rhanbarthol i wneud gwaith ymchwil, prosiectau a gweithgareddau ar y cyd i gynorthwyo datblygiad y Gymraeg.

Ystyriwch bartneriaethau

i ddarparu cyfleoedd i bobl ymgysylltu â'i gilydd drwy'r Gymraeg mewn digwyddiadau ymgynghori (hyd yn oed os na fydd y pwnc yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg).

ee

e.e. **Menter Iaith Caerffili a phartneriaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** i hwyluso cyfleoedd i gymunedau lleol roi adborth drwy gyfrwng y Gymraeg/gynnal y sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg mewn digwyddiadau ymgynghori a.y.y.b.

Bod Yn Fwy Anturus

Datblygu partneriaethau

gyda sefydliadau a all hwyluso gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o raglenni gwaith ehangach e.e. mewn cynlluniau ysgolion, canolfannau hamdden a.y.y.b.

Sicrhewch fod gan grwpiau'r iaith Gymraeg

(megis Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Cymraeg i Oedolion) y cyfle i ymgyfrannu'n llawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

Sgiliau

Crëwch gyfleoedd i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg i arfer eu Cymraeg - megis Cinio Cymraeg, siop siarad, cynllun cyfeillio.

e.e. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Sir Fynwy](#) – cyfleoedd i staff ddatblygu sgiliau mewn amgylcheddau anffurfiol.

Anogwch y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n gwella'u Cymraeg i gofrestru gyda'r cynllun Siarad sy'n cael ei gynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cynorthwyo staff sy'n siarad Cymraeg

i'w galluogi i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu hamgylchedd proffesiynol - er enghraifft mewn iechedd, addysg, chwaraeon.

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Cynhwyswch gwestiynau

mewn arfarnu staff sy'n benodol gysylltiedig â'u dyheadau personol/ ymrwymiad i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau yn yr iaith Cymraeg, gyda'r iaith yn rhan hanfodol o'ch rhaglen 'Datblygiad Proffesiynol Parhaus' i gynorthwyo staff, yn ôl priodoldeb, i ddatblygu a chynnal lefelau'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer dibenion gwaith a dibenion cymdeithasol.

Darparwch gyfleoedd i

bobl ddysgu Cymraeg drwy weithgareddau diwylliannol Cymraeg ac/neu mewn cyddestun diwylliannol megis e.e. drwy gân, teithiau cerdded treftadaeth, ymweliadau ag amgueddfeydd.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol

Gwnewch eich rhan i sicrhau bod dwyieithrwydd yn arfer 'normal' ledled Cymru.

Datblygwch bartneriaethau lefel uchel cenedlaethol (sy'n ganiatáu darpariaeth/ymgysylltiad lleol) i adeiladu ymagwedd gydweithredol tuag at y Gymraeg ledled Cymru, er enghraifft drwy agor dosbarthiadau Cymraeg yn eich sefydliad, neu greu cyfleoedd ar y cyd i ddefnyddio'r iaith.

Datblygwch derminoleg Gymraeg mewn technoleg ym mhob maes arbenigedd yn y sector cyhoeddus.

Cydweithiwch i facsimeiddio proffil y Gymraeg, cynyddu ymwybyddiaeth o'i chyfleoedd posibl ar gyfer datblygiad unigol a chymunedol a manteisiwch arni fel pwynt gwerthu unigryw ar gyfer denu ymweliadau rhyngwladol i Gymru.

Gweithredu sefydliadol

Polisi

Sicrhewch fod eich arweinwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf mewn digwyddiadau/cyfarfodydd fel mater o drefn.

Partneriaethau

Rydych chi'n rhan o ymagwedd gydweithredol tuag at feithrin sgiliau yn y Gymraeg ar lefel rhanbarthol i gynorthwyo cyflogaion gwasanaethau cyhoeddus (ac eraill) i gyrchu cyfleoedd dysgu priodol yn lleol.

Perchnogi'r Uchelgais

Rydych yn darparu cymorth

i sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau cyhoeddus yr ydych yn gweithio gyda nhw i greu gwybodaeth gyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithio'n ddwyieithog.

ee

e.e. mae **Heddlu Gogledd Cymru** [wedi ymrwymo i fod yn sefydliad dwyieithog.](#)

Sgiliau

Rydych chi'n darparu

cyfleoedd parhaus proffesiynol sy'n gysylltiedig â sgiliau iaith yn y gweithle a lleoliadau cymunedol.

ee

e.e. **Pontio / Prifysgol Bangor** [yn datblygu'r Gymraeg gyda chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i staff a'r gymuned ehangach.](#)

Engbreiffiau a ffynonellau eraill



Mae **Safonau'r Gymraeg** yn gosod disgwyliadau ar Gyrrff Cyhoeddus sy'n golygu y bydd y mwyafrif yn cyflawni'r Newidiadau Syml yn hawdd. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru fodd bynnag yn un enghraifft lle mae gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan hanfodol o'u bywyd bob dydd.



Prosiect 'Highlands and Islands' yr Alban, Cynllun Gaeleg.



MA mewn Ymwybyddiaeth Ofalgar - Prifysgol Bangor

Adran Seicoleg yn gwneud ymwybyddiaeth ofalgar yn ddiwylliannol berthnasol i Gymru a'r Gymraeg.



Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cynorthwyo sefydliadau i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.



Ar Lafar - Gŵyl i Ddysgwyr a ddatblygwyd ar y cyd.




Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – cyfleoedd i ddysgu/datblygu sgiliau yn y Gymraeg mewn gwahanol ddulliau.



Cyngor defnyddio Cysill / Cysgeir [yma.](#)



Cyrsiau blasu 10 awr ar gael [yma.](#)



Mwy o wybodaeth am gyrsiau Cymraeg [yma.](#)